

# Cynllun iawndal i ddefnyddwyr ar gyfer cyngor anaddas i drosglwyddo allan o Gynllun Pensiwn British Steel

**Datganiad Polisi**

PS22/14

Tachwedd 2022

## Yn berthnasol i

Papur Ymgynghori 22/6 sydd ar gael ar ein gwefan yn [www.fca.org.uk/publications](http://www.fca.org.uk/publications)

**Ebost:**

cp22-6@fca.org.uk

**Symud o amgylch y ddogfen hon**

Defnyddiwch declynnau llyfrnodau eich porwr i we-lywio.

I chwilio ar PC defnyddiwch Ctrl+F neu Command+F ar MACs.

## Cofrestru ar gyfer ein hysbysiadau newyddion a chyhoeddiadau

Gweler ein holl ddatganiadau i'r wasg, ymgynghoriadau a'n hareithiau diweddar.



## Contents

1	Crynodeb	3
---	----------	---

# 1 Crynodeb

- 1.1** Mae'r datganiad polisi hwn yn nodi rheolau terfynol ar gyfer cynllun iawndal i gyn-aelodau Cynllun Pensiwn British Steel (BSPS) a drosglwyddodd allan ohono ar ôl cael cyngor anaddas i wneud hynny. Mae'r rheolau'n ei gwneud yn ofynnol i gwmnïau asesu unrhyw gyngor a roddon nhw i aelodau'r BSPS drosglwyddo allan ac i dalu iawndal os oedd y cyngor yn anaddas ac wedi achosi colled i'r defnyddiwr. Yn y datganiad polisi hwn rydym yn crynhoi'r adborth a gawsom i bapur ymgynghori CP22/6, ein hymateb i'r adborth hwnnw, a'n rheolau terfynol ar gyfer cynllun iawndal defnyddwyr o dan adran 404 (s. 404) o Ddeddf Gwasanaethau Ariannol a Marchnadoedd 2000 (FSMA). Rydym hefyd yn crynhoi'r adborth a gawsom i CP22/15, sy'n nodi ein cynigion ar gyfer sut y dylai cwmnïau gyfrifo a thalu iawndal am achosion cynllun.

## Ar bwy mae hyn yn effeithio

---

- 1.2** Bydd y rheolau newydd hyn yn effeithio ar ddefnyddwyr a oedd yn aelodau o'r BSPS ac a gafodd eu cynghori i drosglwyddo allan ohono. Bydd y defnyddwyr sy'n dod o dan y cynllun yn cael asesu'r cyngor trosglwyddo pensiwn a gawsom nhw gan y cwmni a roddodd y cyngor. Efallai y gofynnir iddynt ddarparu rhywfaint o wybodaeth i helpu gyda'r asesiad hwnnw. Pe bai'r defnyddiwr yn dioddef colled oherwydd cyngor anaddas, byddant yn cael cynnig iawndal. Os yw'r cwmni'n canfod bod y cyngor yn addas, gofynnir i ddefnyddwyr os ydynt am gyfeirio eu hachosion at Wasanaeth yr Ombwdsmon Ariannol. Yna bydd Gwasanaeth yr Ombwdsmon Ariannol yn ystyried os yw'r cwmni wedi cymhwyso rheolau'r cynllun yn gywir wrth asesu addasrwydd. Gall defnyddwyr hefyd gyfeirio eu hachosion at Wasanaeth yr Ombwdsmon Ariannol ar gamau eraill y cynllun os oes ganddynt bryderon am benderfyniadau y mae'r cwmni wedi'u gwneud o dan y cynllun.
- 1.3** Bydd y rheolau newydd hyn hefyd yn effeithio ar gwmnïau a gynghorodd ddefnyddwyr i drosglwyddo allan o BSPS. Bydd gofyn i gwmnïau asesu'r cyngor a roddon nhw ar bob achos o fewn cwmpas y cynllun. Os oedd y cyngor yn anaddas, bydd gofyn i gwmnïau dalu iawndal i ddefnyddwyr i gywiro unrhyw golled a achoswyd iddynt. Nod iawndal yw rhoi defnyddwyr yn ôl yn y sefyllfa ariannol y byddent wedi bod ynnddi pe byddent wedi aros yn y BSPS. Rydym yn cynnig, lle bo'n bosibl, os nad yw'r defnyddiwr wedi ymddeol, y dylid buddsoddi'r iawndal ym mhensiwn personol y defnyddiwr, fel y bydd yn tyfu i swm sy'n caniatáu i'r defnyddiwr brynu blwydd-dâl ar ôl ymddeol sy'n darparu incwm gwarantedig.

## Cyd-destun ehangach y datganiad polisi hwn

---

### Ein hymgyngghoriad

- 1.4** Yn CP22/6 buom yn ymgynghori ar reolau i sefydlu cynllun iawndal i ddefnyddwyr a gafodd eu cynghori i drosglwyddo allan o'r BSPS. Roedden ni wedi canfod bod nifer fawr o aelodau'r BSPS wedi dioddef colled ariannol ar ôl cael cyngor i drosglwyddo allan. Mae BSPS yn achos amlwg ac eithriadol iawn. Mae ein tystiolaeth, a eglurir yn

fanylach ym Mhennod 3, yn awgrymu bod 46% o'r holl drosglwyddiadau yn anaddas. Mae hyn yn awgrymu lefelau llawer uwch o gyngor gwael yn gyffredinol, o'i gymharu â'r hyn yr ydym wedi'i weld mewn cwmnïau risg uwch mewn achosion trosglwyddo pensiwn nad ydynt yn rhai BSPS (17%). Yn CP22/6, fe wnaethom egluro, er gwaethaf ein hymdrechion i annog cwynion, dim ond tua 10% o ddefnyddwyr BSPS a dderbyniodd gyngor sydd wedi cwyno. Os na fyddwn yn gweithredu nawr, mae'n debygol y byddai nifer o ddefnyddwyr wedi'u cyfyngu o ran amser rhag gwneud cwyn pe byddent am wneud hynny yn y dyfodol.

- 1.5** Rydym yn cynnig gweithredu cynllun iawndal defnyddwyr sy'n ei gwneud yn ofynnol i gwmnïau a roddodd gyngor i drosglwyddo allan o'r BSPS i adolygu'r cyngor a roddon nhw, nodi a oedd yn anaddas a chyfrifo a thalu iawndal i ddefnyddwyr lle bo angen. Un o brif amcanion y cynllun yw sicrhau bod modd i unrhyw un sydd wedi colli allan yn ariannol ar ôl cael cyngor anaddas gael unrhyw iawndal sy'n ddyledus iddyn nhw.
- 1.6** Yn CP22/15 buom yn ymgynghori ar reolau cyfrifo iawndal ar gyfer y cynllun arfaethedig fel rhan o ymgynghoriad ehangach ar newidiadau i'r fethodoleg gyffredinol ar gyfer cyfrifo iawndal ar gyfer cyngor trosglwyddo pensiwn nad oedd yn cydymffurfio. Heddiw rydym hefyd wedi cyhoeddi rheolau terfynol yn ymwneud â'r fethodoleg gyffredinol.
- 1.7** Rydym hefyd yn ymgynghori yn CP22/22 ar ymestyn y rheolau cadw asedau dros dro i sicrhau y byddai'r rheolau'n parhau i fod yn berthnasol nes bod cwmnïau wedi datrys yr holl achosion BSPS perthnasol sy'n ddarostyngedig i reolau'r Cynllun Iawndal i Ddefnyddwyr ac achosion perthnasol eraill y tu allan i'r cynllun.

## Sut mae'n cysylltu â'n hamcanion

---

### Diogelu defnyddwyr

- 1.8** Bydd y cynllun iawndal yn hyrwyddo ein hamcan i sicrhau gradd briodol o ddiogelwch ar gyfer defnyddwyr, trwy sicrhau bod defnyddwyr a gafodd gyngor anaddas a dioddef niwed yn cael iawndal.

### Cystadleuaeth

- 1.9** Rydym wedi ystyried yr effaith y bydd y cynllun iawndal arfaethedig yn ei chael ar gystadleuaeth ac rydym yn fodlon ei fod yn hyrwyddo cystadleuaeth effeithiol er budd defnyddwyr yn gyson â'n dyletswydd cystadlu o dan adran 1B(4) o Ddeddf Gwasanaethau Ariannol a Marchnadoedd 2000 (FSMA).

## Yr hyn rydym yn ei newid

---

- 1.10** Rydyn ni wedi penderfynu gweithredu cynllun iawndal. Bwriad y cynllun iawndal, cyn belled ag sy'n ymarferol bosib, yw rhoi aelodau BSPS – a ddiodeffodd golled oherwydd cyngor anaddas i drosglwyddo eu pensiwn – yn ôl yn y sefyllfa y bydden nhw wedi bod ynddi pe bai'r cyngor wedi bod yn addas a'i fod yn cydymffurfio â'n gofynion. Nod iawndal yw rhoi defnyddwyr yn ôl yn y sefyllfa ariannol y byddent wedi bod ynddi pe byddent wedi aros yn y BSPS.

- 1.11** Bydd y cynllun yn cynnwys defnyddwyr a dderbyniodd gyngor rhwng 26 Mai 2016 a 29 Mawrth 2018 i drosglwyddo allan o BSPS. 26 Mai 2016 yw pan lansiodd yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) ymgynghoriad ar BPS a 29 Mawrth 2018 yw pan aeth BPS i mewn i asesiad y Gronfa Diogelu Pensiwn (PPF) ac fe'i caewyd i drosglwyddiadau.

Yn ystod y cyfnod hwn fe aeth aelodau'r BPS drwy gyfres o ddigwyddiadau unigryw, a achosodd niwed i nifer o'r rhai a drosglwyddodd eu pensiwn.

## Pa gamau y bydd gofyn i gwmnïau eu cymryd o dan y cynllun?

- 1.12** Mae'r cynllun yn gofyn i gwmnïau a roddodd y cyngor i asesu a oedd yn addas, i ddweud wrth ddefnyddwyr ganlyniadau eu hasesiad a thalu iawndal os achosodd y cyngor iawndal os achosodd y cyngor anaddas i'r defnyddwyr ddiodef colled ariannol. Pan fydd cwmnïau'n penderfynu bod y cyngor a roddwyd ganddynt yn addas, bydd yn ofynnol iddynt basio manylion defnyddwyr ymlaen i ni fel y gallwn gynorthwyo defnyddwyr i gyfeirio achosion i Wasanaeth yr Ombwdsmon Ariannol am adolygiad annibynnol.

## Pwy na fydd yn dod o dan y cynllun iawndal

- 1.13** Mae gwybodaeth i ddefnyddwyr ar y grwpiau o bobl nad ydynt yn dod o dan y cynllun, a'r camau y gallant eu cymryd, wedi'i nodi isod.
- 1.14** Os yw defnyddiwr yn cael ei wahardd o'r cynllun am un o'r rhesymau isod ond yn credu y dylid eu cynnwys, gallant gwyno i Wasanaeth yr Ombwdsmon Ariannol.

## Cwsmeriaid cwmnïau sydd eisoes wedi mynd i'r wal neu sy'n mynd i'r wal yn ystod y cynllun

Os yw eich cyngorydd wedi mynd i'r wal, dylech wneud hawliad gyda'r Cynllun Iawndal Gwasanaethau Ariannol (FSCS). Os yw'r FSCS yn gweld eich bod wedi cael cyngor gwael a bod arian yn ddyledus i chi, gallant eich digolledu hyd at £85,000. Gallwch ddod o hyd i restr o gwmnïau a roddodd gyngor BPS ac nad ydynt yn masnachu mwyach, a sut i wneud hawliad yn [www.fscs.org.uk/bsps](http://www.fscs.org.uk/bsps).

Os yw cwmni sy'n ddarostyngedig i'r cynllun yn methu, neu'n methu â bodloni ei rwymedigaethau, bydd FSCS yn asesu hawliadau cwsmeriaid y cwmni gan ddefnyddio'r fethodoleg a nodir yn rheolau'r cynllun.

## Pobl a gafodd gyngor i drosglwyddo o'r BPS ond nid rhwng 26 Mai 2016 a 29 Mawrth 2018

Edrychwch ar eich gwaith papur i ddarganfod pryd y cawsoch eich cyngori i drosglwyddo. Os cawsoch gyngor cyn 26 Mai 2016, ni fyddwch wedi'ch cynnwys yn y cynllun. Gallwch ddarganfod sut i wirio'ch cyngor a gwneud cwyn eich hun ar ein gwefan.

### **Pobl sydd eisoes wedi derbyn iawndal**

Gallai hyn fod ar ôl i chi wneud cwyn, oherwydd ein bod eisoes wedi gofyn i'r cwmni adolygu ei gyngor blaenorol neu lle rydych chi wedi derbyn iawndal gan FSCS. Mae'r canlyniad a gawsoch yn debygol o fod yr un fath â phe bai eich achos wedi cael ei ystyried fel rhan o'r cynllun.

### **Pobl sydd eisoes wedi cyfeirio cwynion at Wasanaeth yr Ombwdsmon Ariannol**

Gallai hyn fod ar ôl cwyn i'r cwmni neu oherwydd i ni ofyn i'r cwmni adolygu ei gyngor blaenorol. Mae'r canlyniad a gawsoch yn debygol o fod yr un fath â phe bai eich achos wedi cael ei ystyried fel rhan o'r cynllun.

### **Pobl a drosglwyddodd allan o'r BSPS ar ôl cael cyngor i beidio (h. y. cleientiaid penderfynol)**

Bydd angen i gwmnïau wirio bod pobl yn cael eu dosbarthu'n gywir fel 'cleient penderfynol' a byddant yn rhoi gwybod i bobl os ydynt wedi'u heithrio o'r cynllun ar y sail hon. Os nad ydych yn cytuno eich bod yn 'benderfynol', byddwch yn gallu cwyno wrth Wasanaeth yr Ombwdsmon Ariannol.

Yn dibynnu ar yr amgylchiadau, a'r hyn ddywedodd eich cynghorydd wrthych am y broses hon, efallai y byddwch yn dal yn gymwys i gael iawndal. Cysylltwch â Gwasanaeth yr Ombwdsmon Ariannol ar [BSPS@financial-ombudsman.org.uk](mailto:BSPS@financial-ombudsman.org.uk)


### **Pobl a oedd yn rhy hwyr i wneud cwyn cyn gweithredu'r cynllun**

Os wnaethoch chi drosglwyddo allan cyn 24 Tachwedd 2016 efallai eich bod yn rhy hwyr i gwyno. Mae hyn yn golygu na fydddech yn dod o dan y cynllun iawndal oni bai eich bod ond wedi dod yn ymwybodol efallai eich bod wedi cael cyngor gwael ar ôl 24 Tachwedd 2019. Os ydych yn meddwl y dylech gael eich cynnwys yn y cynllun, gallwch gwyno i Wasanaeth yr Ombwdsmon Ariannol.

Os yw cyfraith yr Alban yn berthnasol i'ch cyngor – gallai hyn fod yn wir os ydych chi neu eich cynghorydd wedi'i leoli yn yr Alban – ac fe wnaethoch chi drosglwyddo allan cyn 24 Tachwedd 2017 efallai y byddwch chi'n rhy hwyr i gwyno. Mae hyn yn golygu na fydddech yn dod o dan y cynllun iawndal oni bai eich bod ond wedi dod yn ymwybodol eich bod wedi cael cyngor gwael ar ôl 24 Tachwedd 2017. Os ydych yn meddwl y dylech gael eich cynnwys yn y cynllun, gallwch gwyno i Wasanaeth yr Ombwdsmon Ariannol.

## Y canlyniad yr ydym yn ei geisio

- 1.15** Bydd y cynllun yn hyrwyddo ein hamcan i sicrhau gradd briodol o ddiogelwch i ddefnyddwyr trwy sicrhau bod defnyddwyr a gafodd gyngor anaddas ac a ddiodeffodd niwed yn cael iawndal. Mae Ffigur 1 yn dangos sut y bwriedir cyflawni hyn:



## Mesur llwyddiant

- 1.16** Mae'r cynllun yn cynnwys gofynion adrodd ar gyfer cwmnïau fel y gallwn fonitro cynnydd a chydymffurfiaeth cwmnïau â'r cynllun.
- 1.17** Rydym yn amcangyfrif, yn ogystal â'r gwaith goruchwyllo yr ydym wedi'i wneud i sicrhau bod defnyddwyr BSPS yn cael iawndal, y bydd y cynllun arfaethedig yn cyflawni'r canlyniadau canlynol:
- Mae tua 1,100 o ddefnyddwyr BSPS o fewn cwrpas a gafodd gyngor yn y cyfnod perthnasol yn cael £49m o iawndal
  - I gyd, mae cwmnïau'n talu iawndal o £33.6m ac mae FSCS yn talu iawndal o £15.4m
  - Mae 90% o gwmnïau yn y cynllun yn gallu cwblhau'r cynllun heb ddod yn fethdalwr
  - Mae 90% o'r achosion yn y cynllun yn cael eu cwblhau gan gwmnïau o fewn cyfnodau amser sy'n cael eu nodi yn y rheolau, sy'n cynnwys terfynau amser ar gyfer asesu addasrwydd a thalu iawndal.

## Crynodeb o'r adborth a'n hymateb

- 1.18** Cawsom 132 o ymatebion i CP22/6 gan 28 defnyddiwr, 84 cwmni, 7 corff masnach, 2 yswiriwr, ac 11 arall (gan gynnwys cwmnïau cyfreithiol ac ymgynghorwyr cydymffurfio). Rydym wedi ystyried yr adborth hwn yn ofalus a'r heriau a gawsom i'n cynigion. Am y rhesymau a nodir yn y ddogfen hon, rydym yn parhau i fod yn fodlon bod y profion cyfreithiol i wneud rheolau o dan s. 404 o FSMA yn cael eu bodloni. Fel rhan o hyn rydym hefyd wedi diweddarau'r Dadansoddiad Buddion Cost (CBA). Mae'r iawndal disgwylidig y bydd y cynllun yn ei gyflawni wedi lleihau oherwydd newidiadau mewn amgylchiadau economaidd, ond ein barn ni yw bod cynllun optio allan s. 404 yn parhau i fod yn well i opsiynau amgen lle gallai defnyddwyr sicrhau iawndal. Yn gyffredinol, mae opsiynau eraill yn dibynnu ar ddefnyddwyr sy'n rhagweithiol ac yn cwyno ac mae'r rhan fwyaf o ddefnyddwyr yr effeithir arnynt yn prysur agosáu at y dyddiad cau ar gyfer gwneud cwyn. Bydd gweithredu cynllun yn 'stopio'r cloc' ar y cyfnod cyfyngiadau perthnasol (os nad yw'r defnyddiwr yn optio allan) ac yn rhoi'r cyfrifoldeb ar gwmnïau i adolygu addasrwydd eu cyngor.
- 1.19** Rydyn ni wedi gwneud y diwygiadau canlynol i'r rheolau wnaethon ni ymgynghori arnynt nhw yn dilyn adborth gan randdeiliaid:
- a.** Gan y gallai defnyddwyr ei chael yn anodd cael gwybodaeth y mae cwmnïau ei hangen i asesu addasrwydd neu gyfrifo iawndal, rydym wedi cyflwyno gofyniad newydd i gwmnïau gael caniatâd defnyddwyr i fynd at drydydd partion ar eu rhan os oes angen rhagor o wybodaeth.
  - b.** Rydym wedi diweddarau Llyfr Ffynhonnell y Cynllun Iawndal Defnyddwyr i gyfuno rheolau'r cynllun a'r rheolau iawndal am y cynllun y buom yn ymgynghori arno ar wahân.
  - c.** Gwelliannau i'r rheolau i sicrhau, lle mae polisi Yswiriant Indemniad Proffesiynol (PII) ar gael, gall yr yswiriwr yn hytrach na'r cwmni gyflawni camau'r cynllun.
  - d.** Mân ddiwygiadau i'r Offeryn Asesu Cyngor Buddion Diffiniedig (DBAAT) i roi mwy o eglurder i gwmnïau.
  - e.** Darpariaeth canllawiau newydd i'w gwneud yn glir, lle mae'r defnyddiwr wedi marw, y dylai'r cwmni gymryd camau rhesymol i gysylltu â'r ystâd/buddiolwyr pan fydd yn ymgymryd â chamau'r cynllun.
  - f.** Gwelliannau i'r penawdau a mân ddiwygiadau i eiriad y llythyrau mae'n ofynnol i gwmnïau eu hanfon at ddefnyddwyr yn dilyn adolygiadau pellach. Rydym wedi ychwanegu ffurflen newydd i'r llythyrau penderfynu ar yr iawndal er mwyn ei gwneud yn haws i ddefnyddwyr gwyno i Wasanaeth yr Ombwdsmon Ariannol os ydyn nhw'n dymuno gwneud hynny. Rydym hefyd wedi ehangu'r canllawiau i egluro bod modd addasu'r llythyrau yn ôl y galw pan fo rhywun heblaw'r cwmni'n ymgymryd â chamau'r cynllun e. e. person cymwys neu yswiriwr y cwmni.
  - g.** Gwelliannau i egluro bod y cyfnod cyfyngiadau 6 mlynedd yn dechrau o ddyddiad trosglwyddo yn hytrach na dyddiad y cyngor.
  - h.** Gwelliannau i'r gofynion adrodd gan ein bod wedi datblygu ein strategaeth goruchwylio a data ymhellach.
  - i.** Gwelliannau i'r rheolau sy'n nodi'r cynllun cymharu y dylai'r cyfrifiad iawndal fod yn seiliedig arno.
  - j.** Darpariaeth newydd sy'n atal prydlondeb y cynllun os yw defnyddiwr yn cyfeirio eu hachos at Wasanaeth yr Ombwdsmon Ariannol yn dilyn penderfyniad iawndal.



- k.** Wrth gyfrifo iawndal, rydym yn disgwyl i gwmnïau ddefnyddio'r dystiolaeth ar ffeil i benderfynu pa gynllun y byddai'r defnyddiwr yn debygol o fod wedi ymuno ag ef a defnyddio'r cynllun hwn fel y cymharydd. Lle nad oes dystiolaeth ar ffeil, dylai BSPS2 fod y cymharydd 'diofyn'. Mae hyn ar y sail bod dwy ran o dair o ddefnyddwyr wedi dewis mynd i BSPS2 yn ystod TTC a bod cyfathrebu'r Ymddiriedolwr ar y pryd yn pwysleisio eu hawydd i sicrhau gwell buddion (yn BSPS2) na'r rhai y byddai'r PPF yn eu darparu.
- l.** Yn hytrach na'i gwneud yn ofynnol i gwmnïau gyfrifo'r elfen estynedig ar gyfer pob achos, mae rheolau'r cynllun yn ei gwneud yn ofynnol i gwmnïau ofyn i ddefnyddwyr sut yr hoffent i'r iawndal gael ei dalu. Os hoffai'r defnyddiwr adolygu faint o iawndal sy'n daladwy o dan y ddau opsiwn (lwmp swm ac estynedig) rhaid i'r cwmni beidio â chodi arnynt am y cyfrifiad hwn, hyd yn oed os yw'r defnyddiwr yn penderfynu yn y pen draw i beidio ag ymestyn eu iawndal
- m.** Rydym wedi penderfynu y dylai unrhyw oblygiadau treth ar gyfer cynigion estynedig gael eu cyfrifo gan gwmnïau y tu allan i'r cyfrifiad. Mae hyn oherwydd bod cwmnïau'n y sefyllfa orau i wneud penderfyniadau goddrychol ar gyfer capasiti lwfans blynyddol ac oes yn seiliedig ar newidiadau mewn amgylchiadau sydd ar y gweill gan y defnyddiwr.
- n.** Rydym wedi ymestyn yr amserlen ar gyfer cyfrifo a thalu iawndal os yw'r defnyddiwr yn pennu y byddent yn hoffi i'r arian gael ei dalu i'w pensiwn.

## Ystyriaethau cydraddoldeb ac amrywiaeth

---

- 1.20** Rydym wedi ystyried y materion cydraddoldeb ac amrywiaeth a allai godi o'r cynigion yn y Datganiad Polisi hwn.
- 1.21** Yn CP22/6, fe wnaethom ddweud nad oeddem o'r farn bod y cynigion yr ymgynghorwyd â ni arnynt yn effeithio'n faterol ar unrhyw un o'r grwpiau sydd â nodweddion gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Ni chawsom adborth gan randdeiliaid ar yr asesiad hwn. Ni chawsom ychwaith unrhyw adborth ar y cynigion eu hunain yn ymwneud â'u heffaith ar grwpiau sydd â nodweddion gwarchodedig.
- 1.22** Nid ydym o'r farn bod y newidiadau rydyn ni wedi'u gwneud ar ôl ymgynghori yn newid ein hasesiad.
- 1.23** Rydym yn disgwyl i gwmnïau gymryd camau i adnabod a blaenoriaethu defnyddwyr a allai fod yn agored i niwed oherwydd eu hamgylchiadau neu y gallai fod angen mynediad cyflym i iawndal, er enghraifft os ydyn nhw wedi neu ar fin ymddeol.

## Y camau nesaf

---

- 1.24** Bydd y cynllun yn dechrau ar 28 Chwefror 2023, gan ganiatáu i gwmnïau baratoi i'w weithredu erbyn y dyddiad hwnnw. Bydd gan gwmnïau tan 28 Mawrth 2023 i nodi'r holl ddefnyddwyr o fewn cwmpas y cynllun. Rhaid i gwmnïau ysgrifennu at holl ddefnyddwyr BSPS o fewn a thu allan i gwmpas y cynllun erbyn 28 Mawrth 2023. Bydd y llythyr yn egluro i'r defnyddiwr:
  - y bydd y cwmni'n adolygu'r cyngor i drosglwyddo, oni bai bod y defnyddiwr yn penderfynu optio allan; neu
  - bod yr achos yn disgyn y tu allan i gwmpas y cynllun ond efallai y bydd defnyddwyr yn dal i allu gwneud cwyn mewn rhai amgylchiadau.

- 1.25** Os na fydd defnyddwyr yn derbyn llythyr gan y cwmni erbyn 28 Mawrth 2023, dylent gysylltu â ni ar 0800 098 4100. Gall cyn-aelodau'r BSPS ddod o hyd i ragor o wybodaeth am sut y bydd y cynllun yn gweithio yn [www.fca.org.uk/bsps](http://www.fca.org.uk/bsps).
- 1.26** Rhaid i gwmnïau ystyried achosion yr holl ddefnyddwyr nad ydynt wedi optio allan o'r cynllun a chysylltu â defnyddwyr gyda chanlyniad yr adolygiad erbyn 28 Medi 2023. Os oedd y cyngor yn anaddas a bod y defnyddiwr yn derbyn y cynnig i iawndal, rhaid i gwmnïau dalu iawndal o fewn 28 diwrnod.
- 1.27** Mae'r diagram canlynol yn nodi camau'r cynllun a'r amserlenni ar gyfer cwblhau'r camau:

